



**Gorffennaf 2007**

Ymateb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i Bapur Ymgynghorol Awdurdod S4C 'Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol'.

## **Manylion**

Teitl yr ymgynghoriad: **Gwasanaethau Plant yn y Dyfodol Digidol**

At: **Alun Thomas, Ysgrifennydd, S4C**

Cynrychiolir: **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

## **Ymateb Sefydliad**

### **Cyflwyniad**

Cred Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fod cyfryngau Cymraeg yn hanfodol i ddyfodol yr iaith a'i chymunedau. Mae gwasanaeth teledu yn rhan allweddol o'r hinsawdd gymdeithasol sydd ei hangen i sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn gyfrwng i adlewyrchu bywyd pobl Cymru ac i gyfrannu'n sylweddol ato.

Yn draddodiadol, mae darlledu wedi ei strwythuro mewn modd ceidwadol iawn gan fod darlledwyr yn safleoli ei hunain fel cyrff awdurdodol sydd yn darlledu i gynulleidfa 'oddefol'.

Cred Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fod angen i gyfryngau fod yn endydau llawer mwy democrataidd sydd yn nwylo'r bobl ac nid yn nwylo corfforaethau.

Yn y cyd-destun digidol a chydgyfeiriol, ble nad 'darlledu' ydy'r unig ffordd i ddarlledwr traddodiadol fel S4C gyfathrebu gyda chynulleidfa, mae cyfle newydd a chyfiwnhad pellach i newid rôl y bobl i fod yn rhan o berchnogi'r broses gyfryngol.

Cred Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fod gwasanaethu plant a phobl ifanc ym maes cyfryngau a chyfathrebu yn allweddol i ddyfodol yr iaith Gymraeg ac i gyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru.

Pwysleisiodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn ei hymgyrchoedd a'i pholisïau ar hyd yr adeg fod yr iaith Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru ac mae caniatáu a hwyluso mynediad at y Gymraeg yn allweddol i ddemocratiaeth a chyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru yn ogystal ag i ddyfodol yr iaith Gymraeg.

### **1. A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant?**

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn croesawu barn Awdurdod S4C y byddai gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant, ac yn gweld y cam hwn fel symudiad i'r cyfeiriad cywir.

Fodd bynnag, mae gan y Gymdeithas nifer o bryderon ynglŷn â'r cyfyngiadau sydd yn nodweddu rhannau o'r papur ymgynghorol hwn.

## **2. A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch safbwyntiau am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?**

Patrymau Darlledu

Nodir ym mharagraffau 3.2.6 mai'r patrwm darlledu arfaethedig ar gyfer y Gwasanaeth Newydd fydd (yn ystod yr wythnos yn ystod tymor ysgolion):

06:00 – 15:00 Plant Meithrin (0-5 oed)

15:00 – 18:30 Plant Hŷn (5-10oed)

18:30 – 21:00 Pobl Ifanc (10-15oed)

**Noda** Cymdeithas yr Iaith y gall hyn arwain at ddim gwasanaeth i blant meithrin sydd yn mynychu cylchoedd meithrin neu ofal dydd yn ystod yr wythnos, ac y bydd cystadlu rhwng pob grŵp oedran am y slotiau 6-8.30 o'r gloch y bore.

**Cred** Cymdeithas yr Iaith Gymraeg y dylai'r Awdurdod ystyried o ddifrif defnyddio gofod newydd ar gyfer Plant Meithrin (gan ddefnyddio system o lwpio rhaglenni fel sydd gan sianeli eraill e.e. CBeebies) er mwyn cynnig cyfle cadarn i blant ifanc iawn gael mynediad at deledu Cymraeg. Mae'r cyfnod ble bydd plentyn bychan yn dysgu siarad yn gyfnod pwysig iawn wrth sefydlu a sefydlogi patrymau iaith y teulu ynghyd â hunaniaeth ieithyddol y plentyn. Dyma gyfnod hefyd pryd mae plant ifanc yn dechrau cymdeithasu gyda'i gilydd ac yn cyfathrebu gyda'i gilydd drwy siarad. Mae teledu yn y cyfnod hwn o ddatblygiad yn gallu cyflawni rôl addysgol gref - yn ieithyddol ac yn gymdeithasol - ac mae'n holl bwysig fod teledu Cymraeg yn cael ei gynnig i'r plant ar adegau pryd maent yn gwyllo'r teledu. Nid oes yr un o'r opsiynau a gynigir gan yr Awdurdod yn cynnig cyfle ychwanegol i blant meithrin sydd yn mynychu meithrinfeydd i wyllo teledu yn Gymraeg yn ystod yr wythnos.

Er bod plant o oedran ifanc yn defnyddio cyfrifiaduron ac yn mynd ar y we i safleoedd penodol ar eu cyfer, mae gwasanaethau teledu yn dal yn bwysig iawn i'r grŵp oedran yma am resymau cwbl ymarferol. Ni all plentyn 3oed ddifyrru ei hun gyda chyfrifiadur yn yr un modd ag y gall gyda theledu, tra yn dechnegol gall plentyn 7 oed ganfod ei ffordd o gwmpas cyfrifiadur neu set deledu. Mater arall yw hygyrchedd adnoddau, wrth gwrs.

Ym marn Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, mae 4ydd opsiwn ymhlyg yn yr opsiynau a enwir, sef:

### **Opsiwn 4**

Parhau i ddarlledu'r Trafodion y Cynulliad Cenedlaethol ar S4C2 ond cyfyngu hyn i oriau ysgol o tua 9.00am tan 3.30pm, dydd Llun i ddydd Gwener (yn hytrach na dyddiau Mawrth i Iau o 9.00am tan 6.00pm). Defnyddio'r Band llydan i ategu'r gwasanaeth yma hefyd.

Defnyddio'r gofod hwn (S4C2) ar gyfer sianel i Blant Hŷn a Phobl Ifanc a darlledu o tua 3.30pm i 9.30/10.00pm yn ystod yr wythnos a mwy o oriau dros y penwythnos a gwyliau'r ysgol. Ategu hwn, wrth gwrs, gydag elfennau cyfathrebol drwy wefannau, ffonau symudol ac ati. Defnyddio gofod ychwanegol - gydag adnoddau ychwanegol (S4C3) - i greu sianel i blant oedran meithrin hyd at tua 6/7oed o tua 6am tan 7pm bob dydd o'r wythnos.

<b>S4C 2 (Llun i Gwener)</b>	7am-9am Plant Hŷn/Ifanc	9am-3pm Cynulliad	3pm-10pm Plant Hŷn / Ifanc
------------------------------	----------------------------	----------------------	-------------------------------

**S4C Gofod Newydd** 7 diwrnod 6am-7pm = plant meithrin

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn croesawu sylwadau Awdurdod S4C y dylid cyfuno darlledu gyda chyfathrebu drwy'r we a ffonau symudol ar gyfer pobl ifanc a phlant hŷn. Mae llythrennedd gyfryngol yn sgil bwysig i'r grŵp yma, a dylid ceisio ymrymuso plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y broses gyfryngol. Bydd rhaid sicrhau cyfloed i bobl ifanc i wneud penderfyniadau a chreu cynnwys yn ogystal â 'cymryd rhan' mewn rhaglenni.

### **3. Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i Blant a ddarparir gan S4C?**

Cymraeg, Cyfathrebol, Creadigol. Wedi ei adnoddu'n briodol, a'i drefnu'n ddemocrataidd.

#### Iaith y Gwasanaethau Newydd

Nodir ym mharagraff 3.1.2 y bydd yr Awdurdod yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn San Steffan i nodi cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer Gwasanaeth Newydd

**Cred** Cymdeithas yr Iaith Gymraeg na ddylai'r cylch gwaith hwn gynnwys y geiriau 'lle mae cyfran sylweddol o'r rhaglenni yn rhaglenni Cymraeg' ond yn hytrach dylai nodi 'lle mae'r rhaglenni yn Gymraeg'.

**Cred** Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fod gan blant a phobl ifanc Cymru yr hawl i dderbyn gwasanaeth cyflawn trwy gyfrwng y Gymraeg ac felly ni ddylid creu amheuaeth ar iaith y gwasanaeth o'r cychwyn cyntaf fel hyn.

**Cred** Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fod angen cynnal a datblygu gwasanaethau teledu a rhyngweithiol i holl bobl ifanc Cymru beth bynnag fo'i lefel yn y Gymraeg ond y dylai'r gwasanaethau hyn fod drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

#### Adnoddau

Nodir ym mharagraff 3.3 nad yw Awdurdod S4C yn gofyn am arian ychwanegol ar gyfer y Gwasanaethau Newydd.

Rydym eisoes wedi cyfeirio at yr angen i ystyried ymhellach yr opsiwn o greu gofod newydd – ac i gynnig opsiwn pellach, sef opsiwn 4, a fydd yn mynd yn agosach at ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc o ran gwasanaethau darlledu.

**Cred** Cymdeithas yr Iaith Gymraeg y dylai gwasanaethau i blant a phobl ifanc gael eu cyllido'n briodol a bod angen gwella'r ddarpariaeth bresennol yn sylweddol – er mwyn mynd â teledu Cymraeg i mewn i'r byd amlsianelog, amlblatfform ble mae cyfathrebu yn digwydd fwyfwy rhwng cynulleidfaoedd penodol neu *niche*. Heb arian ychwanegol, dim ond mynd rhan o'r ffordd y bydd hyn – ac mae perygl y bydd y gynulleidfa oed meithrin yn cael ei gadael ar ôl er gwaethaf cynyddu oriau.

**Cred** Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fod angen gwella'r ddarpariaeth gyfryngol drwy'r iaith Gymraeg yn enwedig i blant hŷn a phobl ifanc, yn benodol ym meysydd cyfathrebu

newydd, ac y dylid creu cyfleoedd penodol i blant hyŷn a phobl ifanc gyfathrebu gyda'i gilydd yn y Gymraeg ar lwyfannau'r dechnoleg yma. Gall S4C chwarae rol bellach yn hyn.

**4. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?**

Gweler ein sylwadau ynglŷn ag opsiwn 4 uchod.

Mae Opsiwn 2 yn peryglu darlledu o'r Cynulliad ac fe fyddai atal hynny'n gyfan gwbl yn gam yn ôl i ddatblygiad democratiaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, dylai'r gwasanaeth hwn gael ei drosglwyddo ar fandllydan yn ogystal â sianel deledu am resymau ymarferol i'r defnyddwyr.

Mae Opsiwn 1 yn cynnig drysfa i'r gwylwr drwy newid sianel ar wahanol ddyddiau o'r wythnos. Go brin y byddai hyn yn cyfleu'r neges fod plant a phobl ifanc yn bwysig.

Dydy Opsiwn 3 ddim yn cynnig y defnydd gorau o'r amserlen ddarlledu ar S4C2 am resymau a amlinellwyd uchod yn ein trafodaeth ar Opsiwn 4.

**5. A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?**

Nac ydym. Mae'r farchnad deledu wedi milwriaethu yn erbyn chwaraewyr bychain. Dylid anelu at system ddarlledu/cyfryngol llawer mwy democrataidd ble nad oes angen cyfalaf sylweddol cyn gallu creu cynnyrch a'i ledaenu.

**6. A allwch chi feddwl am randdalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?**

Undebau yn y byd darlledu – BECTU, NUJ  
Undebau Myfyrwyr

**7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr Ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i Blant?**

Opsiwn 4. Wedi ei amlinellu uchod. Cynyddu elfen ddemocrataidd cynnyrch cyfathrebol Cymreig.

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn croesawu'r ymrwymiad i raglenni gwreiddiol wedi eu cynhyrchu yng Nghymru (Pgff 3.4.1.2). Dylid sicrhau fod cwmnïau cydweithredol a phobl ifanc yn benodol yn gallu dod yn rhan o'r gyfundrefn honno yn hytrach na chanoli grym yn nwylo llond dwrn o gwmnïau.

Dylid sicrhau fod marchnata effeithiol ar gyfer y gwasanaethau ar gyfer pob grŵp oedran.